

Proses Cwynion y Cod Ymddygiad - Crynodeb

Isod mae Proses Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer ystyried cwynion bod aelod etholedig wedi torri Cod Ymddygiad ei awdurdod.

Cam 1

Bydd pob cwyn ac ymholiad yn cael ei ystyried yn gyntaf gan y Tîm Cyngori ar Gwynion (TCG).

Rhaid i'r TCG gadarnhau bod yr achwynydd yn fodlon i'r gŵyn (ac unrhyw ddogfennau a atodwyd) gael ei rhannu ag eraill, gan gynnwys yr aelod a gyhuddwyd a Swyddog Monitro neu Glerc yr awdurdod perthnasol (os yw'n briodol).

Os yw'r wybodaeth a ddarparwyd a/neu gopiâu o ddogfennau gyda'r gŵyn yn ymwneud â thrydydd parti, mae'n bosibl y bydd angen i'r TCG gael cydsyniad gan y trydydd parti hwnnw i'w rhannu.

Cam 2

Mae'r Ombwdsmon wedi dirprwyo awdurdod i swyddogion y TCG i benderfynu:

- a oes angen cael rhagor o wybodaeth gan yr achwynydd i ategu'r honiad sydd wedi'i wneud.
- a ddylai'r mater gael ei gyfeirio at Swyddog Monitro yr awdurdod perthnasol i'w ystyried o dan ei broses ddatrys leol (os yw'n briodol).
- a ddylid ymchwilio i'r gŵyn. Er mwyn penderfynu ar hyn, bydd y gŵyn yn cael ei hasesu ar sail y prawf dau gam sydd wedi'i gyhoeddi gan yr Ombwdsmon:
 1. Y prawf ar sail tystiolaeth yw a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri.
 2. Y prawf ar sail budd cyhoeddus. Mae hyn yn galw am ystyried a oes angen ymchwilio i'r gŵyn neu ei chyfeirio i'r Panel Dyfarnu neu bwyllgor safonau er budd y cyhoedd.

Bydd swyddogion y TCG (heblaw mewn amgylchiadau eithriadol) yn hysbysu'r achwynydd, yr aelod a gyhuddwyd a Swyddog Monitro neu Glerc yr awdurdod perthnasol drwy lythyr fod y gŵyn wedi cael ei gwneud. Bydd yr aelod a gyhuddwyd yn cael ymateb i'r gŵyn a wnaed ond nid yw'n gorfod gwneud hyn ar y cam hwn.

Os bydd y gŵyn yn methu â bodloni'r prawf ar y cam cyntaf neu'r ail gam, rhoddir gwybod am hynny drwy lythyr i'r holl bersonau a hysbyswyd o'r blaen.

Os credir bod angen ymchwilio ymhellach ac yn fwy manwl i'r gŵyn, bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio i Dîm Ymchwilio, ar Gam 2 o'r Broses.

Bydd Swyddog Ymchwilio mewn Tîm Ymchwilio yn ystyried y gŵyn o'r newydd, i benderfynu a oes cyfiawnhad dros gynnal ymchwiliad llawn.

Gellir gwrthod cwynion wedyn hefyd os bydd Swyddog Ymchwilio yn credu nad yw camau'r prawf dau gam wedi cael eu bodloni.

Bydd yr achwynydd, yr aelod a gyhuddwyd a Swyddog Monitro neu Glerc yr awdurdod perthnasol yn cael eu hysbysu drwy lythyr os penderfynir ymchwilio i gŵyn. Amlinellir cwmipas yr ymchwiliad. Caiff yr aelod a gyhuddwyd ymateb i'r gŵyn a wnaed ond nid yw'n gorfod gwneud hyn ar y cam hwn. Dyma ddechrau Cam 3 o'r Broses.

Cam 3

Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd ac yn holi neu'n gofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu gorff y mae'n ei ystyried yn briodol.

Gellir newid cyfeiriad a chwmpas ymchwiliad.

Gellir cychwyn ymchwiliad newydd os gwelir ei bod yn bosibl bod aelodau etholedig eraill wedi torri'r Cod.

Gellir peidio â pharhau ag ymchwiliad os credir nad yw gofynion y prawf dau gam wedi'u bodloni bellach.

Pan fydd y Swyddog Ymchwilio wedi'i fodloni bod pob ymholiad rhesymol a chymesur wedi'i wneud, bydd y dystiolaeth a gasglwyd ac y dibynnir arni'n cael ei rhannu â'r aelod a gyhuddwyd.

Bydd yr aelod a gyhuddwyd yn cael cyfle i ymateb mewn cyfweliad i'r gŵyn/cwynion ac i'r dystiolaeth a gasglwyd.

Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd y gŵyn yn symud i Gam 4 o'r Broses.

Cam 4

Y canlyniadau posibl i'r ymchwiliad i'r gŵyn yw:

- a) nad oes dystiolaeth bod y Cod wedi cael ei dorri
- b) nad oes angen cymryd camau

- c) y bydd adroddiad ar y mater yn cael ei anfon at y Swyddog Monitro er mwyn ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau
- d) y bydd adroddiad ar y mater yn cael ei anfon at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn ei benderfynu gan dribiwnlys

Bydd yr achwynydd, yr aelod a gyhuddwyd a Swyddog Monitro neu Glerc yr awdurdod perthnasol yn cael eu hysbysu drwy lythyr os penderfynir terfynu ymchwiliad o dan a) a b) uchod.

Mewn achosion lle penderfynwyd terfynu ymchwiliad o dan c) a d) uchod, bydd adroddiad drafft yn cael ei roi i'r aelod a gyhuddwyd. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn cael eu hystyried a bydd yr adroddiad yn cael ei adolygu cyn cyhoeddi adroddiad terfynol.

Adolygu Penderfyniadau

Caiff achwynydd wneud cais drwy lythyr am adolygu penderfyniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o fewn 20 niwrnod ar ôl ei gael. Bydd angen iddo ddangos bod tystiolaeth newydd i'w hystyried neu fod yr Ombwdsmon wedi methu â rhoi sylw priodol i wybodaeth a ddarparwyd eisoes. Bydd ceisiadau am adolygu'n cael eu hanfon ymlaen at Reolwr Adolygu'r Ombwdsmon i'w hystyried.

Fel arfer ni fydd modd ystyried her i benderfyniad i derfynu ymchwiliad o dan c) a d) uchod, gan fod swyddogaeth yr Ombwdsmon wedi dod i ben ac ni fydd yn gallu ailystyried adroddiad.